

Dewi Brefi, yr Offeiriad Llengar

Byr fu bywyd David Rowland (Dewi Brefi), ond cyflawnodd gryn lawer yn ei oes a'i ddydd. Fe'i ganwyd Awst 1782 yn Ffos-y-ffin, yn ardal Llanio, plwyf Llanddewi Brefi, Ceredigion, yr ieuengaf o bedwar o blant. Bedyddiwyd ef ar Awst 1782 yn Eglwys Dewi Sant, Llanddewi Brefi, a chafodd ei addysg mewn ysgol a gynhelid yn y pentref lle y dysgodd ychydig o'r Clasuron, Lladin a Groeg. Rhoddodd hyn iddo ddigon o hyder i fentro ar ei liwt ei hun ac yn bedair ar ddeg mlwydd oed, agorodd ysgol yn Nhregaron, yna fe aeth i gyflawni'r un gwaith yn Llangeitho, ac ar ôl hynny yn Llanllawddog a Phencader. Pan oedd yno, ymunodd ag enwad yr Annibynwyr a dyna sut yr aeth yn ddeunaw oed i Goleg Presbyteraidd Caerfyrddin. Prifathro'r Coleg oedd David Peter (1765-1837) gyda David David (1764?-1828), Llan-y-bri yn gyd athro. Gŵr syber oedd David Peter, a chredai y dylai pawb a ddeuai i'r Coleg ac yn wir i'w gynulleidfya yn Heol Awst, gael ei drwytho yn y ffydd Gristionogol.

Casglu Llyfrau yn hol bwysig

Credai fod casglu llyfrau yn dyngedfennol bwysig yn ogystal â'u darllen. Calfin cymedrol ydoedd ac nid oedd neidio a moli y Diwygiad Methodistaidd at ei ddant. Gweithiwr diflino, ac er mai blwyddyn yn unig y bu Dewi Brefi yn fyfyrwr, cafodd David Peter gryn ddylanwad arno. Cymeradwyaf yn fawr gyfrol Dewi Eirug Davies, *Hoff Ddysgedig Nyth: Cyfraniad Coleg Presbyteraidd Caerfyrddin i fywyd Cymru* (Abertawe, 1976) fel cyflwyniad i Goleg y Presbyteraidd Caerfyrddin. Dyma, heb os nac onibai, glasur o gyfrol, a gellid amenio geiriau canmoliaethus yr Athro Alun Davies, Abertawe: *Croeso cynnes i gyfraniad teg, tyner a gwerthfawr i hanes crefydd ac addysg Cymru*.

Hyfforddiant Pellach yn Ysgol Ystrad Meurig

Gadawodd David Rowland yr Academi am Ysgol Ystrad Meurig, a oedd yn paratōi bechgyn o Geredigion yn bennaf, ar gyfer Urddau Eglwysig. Cyrhaeddodd Ysgol Ystrad Meurig yn 1801, a chafodd hyfforddiant pellach. Erbyn 1806, yr oedd yn barod i gychwyn ar ei yrfa fel offeriad ac urddwyd ef i'r gwaith gan Esgob Burgess, Esgob Tŷ Ddewi.

Ei guradaeth gyntaf oedd Llanfihangel-y-Creuddyn, ac o fewn blwyddyn, symudodd i Faldwyn, i ofalu ar ôl eglwys Carno a Llanwnnog. Roedd y rhain yn dal yn Esgobaeth Tŷ Ddewi hyd 1862.

Meddyliai y gŵr craff, Thomas

Burgess, gryn lawer o Dewi Brefi, felly hefyd offeiriad eraill fel John Jenkins (Ifor Ceri, 1770-1829), un arall o blant Ceredigion. Symudodd Dewi Brefi ac Ifor Ceri i Faldwyn yr un flwyddyn, a bu perthynas agos rhyngddynt. Ar gymeradwyaeth Ifor Ceri, dewiswyd y llanc o Landdewi Brefi yn genhadwr i St. John's, Newfoundland, dan nawdd y Gymdeithas er Lledaenu'r Efenigl mewn gwledydd tramor.

Adeiladu Eglwys yn Newfoundland

Hwylodd ar 24 Mehefin 1810 ar y llong *Antelope* o borthladd Lerpwl. Nid oedd hi'n hawdd yn Newfoundland. Ond arhosodd yno chwe blynedd, a gwnaeth ei gyfraniad. Adeiladodd eglwys Anglicanaidd newydd, agorodd ysgolion i addysgu'r plant, a bu'n llwyddiannus yn ei ddisbarthiadau beiblaidd. Yr oedd yn Hebrewr da a braint oedd cael gwrandio arno yn dehongli'r Ysgrythurau. Gadawodd Newfoundland yn 1816, ac ar ôl taith ddigon anhwylyus, cyrhaeddodd Sir Drefaldwyn yr haf hwnnw. Arhosodd gyda'i gyd offeiriad llengar, Ifor Ceri, yng Ngheri, Walter Davies (Gwallter Mechain) ym Manafon (lle bu R.S. Thomas yn offeriad o fewn ein cof ni) a'r Parchedig David James yn Llanwnnog. Ar ôl bod yn gweld Burgess, fe gynigiwyd iddo Eglwys Sant Pedr yn nhref Caerfyrddin. Bu'n ddjarhebol o brysur a llwyddiannus hefyd yng Nghaerfyrddin. Priododd yn 1818 gyda Miss M. Matthews, Parc, Llanwnnog, a theithiodd y ddau yn ôl i'r hen lwybrau yn mis Awst y flwyddyn honno.

Cyfarfod o'r Offeiriad Llengar

Trefnwyd cyfarfod yn Fieerdy Ceri, a llysenwid yn Llys Ifor Hael, o dan lywyddiaeth yr Esgob Thomas Burgess, a phenderfynodd Ifor Ceri, Dewi Brefi a Thomas Burgess ail gychwyn y mudiad eisteddfodol. Daeth yr offeiriad llengar ynghyd, fel Ifor Ceri, Gwallter Mechain, Dewi o Ddyfed a theulu nodedig y Richardiaid, sef David Richards (Dewi Silin 1783-1826) a'i dad y Parchedig R. Richards, Darowen, Ioan Tegid (John Jones 1792-1852) y soniaf amdano ef yn *Llestri Gras a Gobaith* (Lerpwl, 2001), heb anghofio Dewi Brefi. Gwnaed ef yn ysgrifennydd y cyfarfod am ei drefnusurwydd a'i ddiddordeb yn iaith a llenyddiaeth ei wlad. O'r cyfarfyddiad hwn y datblygodd y gymdeithas a adnabyddid fel y *Cambrian Society*. Ond yn fuan ar ôl hyn, fe drawyd Dewi yn wael. Dioddefodd o golli gwaed. Teimlai Thomas Burgess fod angen newid plwyf arno. Wedi'r cyfan, bu Eisteddfod Caerfyrddin (1819) yn bluen yn ei het, a

BLODAU DYFED;

AWDLAU, CYWYDDAU, ENGLYNION, A CHANIADAU.
MOESOL A DIDDANOL,
D GYFANSODDwyd GAN FEIRDD DYFED,
YN Y GABRIE DDIEDDAR A'C BRESBYTER.
O Gyfansoddwr JOHN HOWELL. (Ioan ab Hywel.)



Ar y gwydd hysurdd y bu
Blodau Awen yn blodau. — D. BEN REES.

CAERFYRDDIN:
ARGLLEFYDD AC AR WERTH GAN J. STANS, YN HEOL-Y-
FARCHANOD F.A.F.

1824

Wyneb-ddalen y gyfrol sy'n cynnwys
rhai o gerddi Dewi Brefi

phenododd yr Esgob ef i fywoliaeth.

Eglwys Sant Caron, Tregaron. Byddai yno o fewn tair milltir ar y mwyaf, i fro ei febyd a medrai fwynhau awelon Cwm Brefi. Ond bu farw ar 29 Chwefror 1820 yng Nghangell Eglwys Sant Pedr, a gadawyd ei weddw a baban rhai misoedd oed i alaru ar ei ôl.

Ychydig o'i Gerddi yn gweld golau dydd

Gofalodd ei gyfaill llengar John Howell (Ioan ab Hywel neu Ioan Glandyfroedd, 1774- 1830), gwehydd diwylliedig, athro a cherddor, fod ychydig o'i garolau a'i ganeuon yn gweld golau dydd. Cyhoeddwyd hwy yn *Blodau Dyfed, sef Awdlau, Cywyddau, Englynion a Chaniadau, Moesol a Diddanol, a gyfansoddwyd gan Feirdd Dyfed* yng Nghaerfyrddin yn 1824. Dyma gyfrol brin ryfeddol.

Cyhoeddi y gyfrol Blodau Dyfed

Casglodd Ioan Glandyfroedd waith yr offeiriad llengar fel Dewi Brefi ynghyd ar gyfer y cyhoedd llengar. Ceir yn *Blodau Dyfed* gynnyrch beirdd fel Evan Evans (Ioan Prydydd Hir); Eliezer Williams, Llanbedr Pont Steffan; James Davies (Iago ab Dewi); Edward Richard, Ystrad Meurig; Evan Thomas, Llanarth; Ffrancis Thomas (y Crythwr Dall o Geredigion); Ifan Gruffydd, Twrgwyn, heb anghofio y golygydd ei hun. Haedda Dewi Brefi ei gofio yn *Y Casglwr* am iddo warchod y drefnadaeth Gymraeg yn nechrau y bedwaredd ganrif ar bymtheg.